Bydd mesurau pellter corfforol/cymdeithasol eraill ar waith tebyg i systemau un-ffordd, rheoli ciwiau a defnyddio sgriniau diogelwch clir i sicrhau gwarchod a diogelwch yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â phroses yr etholiad.

Caiff yr holl drefniadau eu hadolygu a gallant newid pe byddai amgylchiadau'n newid.

**ADNODDAU**

Mae'r holl ganllawiau a ffurflenni (yn cynnwys papurau enwebu) ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiadol:

**https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-yn-etholiadau-senedd-cymru**

Mae'r canllawiau dilynol ar gael.

**Rhan 1 Allwch chi sefyll mewn etholiad?**
**Rhan 2a Sefyll yn yr etholiad etholaethol**
**Rhan 2b Sefyll yn yr etholiad rhanbarthol**
**Rhan 3 Gwariant a rhoddion**
**Rhan 4 Yr ymgyrch**
**Rhan 5 Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol**
**Rhan 6**

Argymhellir eich bod yn darllen pob rhan o'r canllawiau.

**CYFARFOD GWYBODAETH I YMGEISWYR / ASIANTAU ETHOLIAD**

Cynhelir sesiwn wybodaeth i ymgeiswyr ac asiantau ddydd Mercher 17 Mawrth am 16.00 ar Microsoft Teams. Bydd y sesiwn yn rhoi tr Bsiwr

**Bydd angen i chi ddilyn canllawiau iechyd cyhoeddus a gofynnir i chi wisgo mwgwd**

**gennych eithriad).**

Caiff ymgeiswyr ac asiantau etholiad eu hannog i gyflwyno eu papurau enwebu cyn gynted ag sydd modd i ganiatáu prosesu a gwirio. Ni fedrir dal y Swyddog Canlyniadau Etholaeth/Rhanbarthol yn gyfrifol am unrhyw enwebiadau hwyr/anghywir.

## COFRESTR ETHOLWYR

Mae gan bob ymgeisydd Etholaethol ac ymgeisydd Rhanbarthol unigol hawl i un copi o'r Gofrestr. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol ar gyfer pob Etholaeth gyflenwi cofrestr ar gyfer eu hardal i chi un ai mewn dull data neu brint. Cysylltwch â nhw'n uniongyrchol os dymunwch dderbyn copi os gwelwch yn dda. Caiff y rhifau ffôn ar gyfer pob Swyddog Cofrestru Etholiadol eu rhestru ar yr Hysbysiad Etholiad. Mae'n rhaid i ymgeiswyr wneud cais ysgrifenedig am gopi o'r gofrestr.

**CYNGOR AR GYHOEDDUSRWYDD YMGYRCH**

Mae nifer o gyfyngiadau dan gyfraith etholiadol ar ddeunydd ymgyrch. Mae'n rhaid i ddeunydd ymgyrch etholiadol gynnwys argraffnod sy'n rhaid iddo gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffwr a'r hyrwyddwr); rhaid iddo beidio edrych yn debyg i gerdyn pleidleisio; a rhaid iddo beidio cynnwys datganiad anwir am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd

ardal fel y gallwch roi adroddiad am eich honiad. Os ydych eisiau i’r heddlu ymchwilio eich pryderon yn ffurfiol, dylech fod yn barod i roi datganiad iddynt a phrofi eich honiad. Dynodwyd Un Man Cyswllt ar gyfer etholiadau i bob heddlu.

**Y**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am wariant a rhoddion, dylech gysylltu â'r Comisiwn Etholiadol ar 0333 103 1929 neu infowales@electoralcommission.org.uk

Y dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd treuliau etholiadol yw 11 Mehefin 2021 (os caiff y canlyniad ei gyhoeddi ar 7 Mai 2021).

Yn gywir



Michelle Morris
Rheolwr Gyfarwyddwr
Swyddog Canlyniadau Etholaethol a Rhanbarthol

The General Offices
Steelworks Road
Ebbw Vale
NP23 6DN

Y Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glyn Ebwy
NP23 6DN